# Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) –

# Rhestr o Gymwysterau Gofynnol

i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru

Paratowyd gan Chwarae Cymru ar ran PETC Cymru

Dylid defnyddio’r rhestr hon ar y cyd â’r fframwaith cymwysterau a gynhyrchwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac unrhyw gyngor sgiliau sector arall sy’n gyfrifol am adrannau o’r gweithlu blynyddoedd cynnar sy’n gweithio mewn gwahanol sectorau (e.e. iechyd, addysg). Dylid ei defnyddio hefyd ar y cyd â safonau a rheoliadau gwasanaeth, fel yr amodir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Hon yw’r Rhestr y cyfeirir ati yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed, yn enwedig parthed Safon 13: Staffio.

Mae’r rheini sy’n gweithio mewn lleoliadau Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol neu Waith Chwarae Mynediad Agored cofrestredig angen cymhwyster gwaith chwarae. Gweler adran 2 am y dyfarniadau neu’r cymwysterau gwaith chwarae angenrheidiol.

Bydd y rheini sy’n gweithio mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn sydd wedi ehangu i weithio gyda phlant hyd at 12 oed angen dyfarniad neu gymhwyster gwaith chwarae a gofal plant hefyd. Gweler adran 2 am y dyfarniadau neu’r cymwysterau gwaith chwarae angenrheidiol.

Mae’n bosibl y bydd y rheini sy’n gweithio mewn lleoliadau eraill a reoleiddir gyda phlant hyd at 12 oed, yn cynnwys – grwpiau ieuenctid iau, gwaith ieuenctid trosiannol a chlybiau ysgolion coedwig dros y gwyliau, angen dyfarniad neu gymhwyster gwaith chwarae a nodir yn adran 2.

Gweler hefyd siart lif cymwysterau PETC Cymru a gynhyrchwyd er mwyn helpu i benderfynu pa gymwysterau sydd fwyaf addas – https://chwarae.cymru/wp-content/uploads/sites/3/2023/03/Llifsiart-Cymwysterau-Gwaith-Chwarae-V9.pdf

**Cyhoeddwyd gan:**

Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru

d/o Chwarae Cymru

© Mai 2025 PETC Cymru

**Cynnwys**

**Rhagair**
**Adran 1: Cyflwyniad a Chanllawiau**

1.1 Ble mae gwaith chwarae'n digwydd
1.2 Mathau o leoliadau gwaith chwarae a reoleiddir
1.3 Diffiniadau o rolau swydd o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir
1.4 Statws y Rhestr Cymwysterau
1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir
1.6 Cyn-gymwysterau a dderbynnir i ymarfer
1.7 Meini prawf er mwyn i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau
1.8 Cymwysterau nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf dylunio
1.9 Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP)
1.10 Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae
1.11 Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau
1.12 Cyfwerthedd a dysg blaenorol
1.13 Cymwysterau a enillwyd y tu allan i Gymru
1.14 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr gwaith chwarae
1.15 Datblygiad proffesiynol parhaus
1.16 Cymwysterau seiliedig ar waith ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus
1.17 Cymwysterau addysg uwch ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus
1.18 Trosglwyddo ac asesu cymwysterau
1.19 Yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
1.20 Crynodeb o Newidiadau

**Adran 2: Cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn gweithio ym maes darpariaeth gwaith chwarae a darpariaeth gofal plant gyda phlant hyd at 12 oed**

- Gweithiwr / ymarferydd chwarae (Gweithiwr chwarae a reoleiddir sydd ddim yn oruchwylydd)
- Uwch-weithiwr chwarae / person â chyfrifoldeb (person â chyfrifoldeb / person cofrestredig, ar gyfer lleoliad gofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed)
- Rheolwr gwaith chwarae (ddim yn ofynnol gan y SGC)

**Atodiad 1: Lleoliadau sy'n dod o dan ofalaeth Gofal Cymdeithasol Cymru**
**Atodiad 2: Cyrff dyfarnu sydd, ar hyn o bryd, yn cynnig cymwysterau gwaith chwarae sydd wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru a'u cefnogi gan PETC Cymru**

**Rhagair**

Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn bodoli i ddarparu fforwm i'r sector drafod materion o bwys strategol ar bob agwedd o addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a PETC UK. Un rhan o'i gylch gwaith yw cymeradwyo cymwysterau gwaith chwarae i gael eu cynnwys ar y Rhestr o Gymwysterau Gofynnol y cyfeirir ati yn Safon 13 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant ac mae'n darparu ysgrifenyddiaeth i PETC Cymru sy'n cynnwys diwygio achlysurol, cyfieithu a gwe-letya'r rhestr hon.

Mae'r Rhestr hon o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru'n disodli'r holl fersiynau blaenorol.

Mae cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan gyflogwyr, sy'n addas i'r diben ac sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol o safon uchel yn hanfodol ar gyfer codi statws a chyfrannu at broffesiynoli'r gweithlu chwarae yng Nghymru.

Hoffai Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru ddiolch i Lywodraeth Cymru, Chwarae Cymru a'r holl bartneriaid hynny sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Rhestr hon o Gymwysterau Gofynnol.

## Adran 1: Cyflwyniad a Chanllawiau

Mae'r Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru yn darparu canllawiau i gyflogwyr ac ymarferwyr, darparwyr hyfforddiant, cyrff rheoleiddio a sefydliadau eraill ar y cymwysterau galwedigaethol gofynnol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae a reoleiddir gyda phlant hyd at 12 oed.

Dylid defnyddio'r rhestr hon ar y cyd â'r rhestr cymwysterau a gynhyrchwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac unrhyw gyngor sgiliau sector arall sy'n gyfrifol am adrannau o'r gweithlu blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau (e.e. iechyd, addysg). Dylid ei defnyddio hefyd ar y cyd â safonau a rheoliadau gwasanaeth, fel yr amodir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Yn Ebrill 2016 diwygiwyd y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd i gynnwys darpariaeth ar gyfer plant hyd at 12 oed.

Y cymwysterau ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio gyda phlant hyd at 12 oed mewn lleoliadau gwaith chwarae (gweler 1.1) yw'r rheini a nodir yn y rhestr hon **o dan adran 2**. Ar gyfer y rheini sydd â chymwysterau eisoes sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, efallai y bydd dyfarniad neu gymhwyster â gwerth credydau is yn addas. (gweler 1.8, 1.9 ac 1.10)

### 1.1 Ble mae gwaith chwarae'n digwydd

Mae gwaith chwarae'n cwmpasu hwyluso a darparu cyfleoedd chwarae'r tu allan i'r cwricwlwm addysgol ar gyfer plant oedran ysgol, ac mae'n cwmpasu darpariaeth yn y sectorau gwirfoddol, preifat ac a gynhelir, yn y lleoliadau chwarae canlynol: meysydd chwarae antur, cynlluniau chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol, gofal y tu allan i'r ysgol (yn cynnwys clybiau brecwast, clybiau amser cinio, clybiau ar ôl ysgol, clybiau'n ystod gwyliau'r ysgol (3-16 oed)), canolfannau chwarae cymunedol ac mewn ysgolion, prosiectau chwarae symudol, prosiectau chwarae arbenigol, canolfannau gweithgarwch teuluol a chanolfannau chwarae dan do, a darpariaeth rhodwyr chwarae. Mae'r cymwysterau gofynnol a restrir yn y ddogfen hon wedi eu dylunio i fod yn addas, ar y lefel priodol, ar gyfer pob un sy'n gweithio yn y lleoliadau gwaith chwarae a restrir uchod. Yn ogystal, ceir pobl sy'n gweithio ym maes datblygu chwarae ac mewn rolau cefnogi busnes gofal plant, a thra ein bod yn cydnabod bod y rolau hyn yn cyfoethogi datblygiad a throsglwyddiad darpariaeth chwarae, mae cwmpas y ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â'r staff hynny sy'n gweithio mewn lleoliadau a restrir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ac nid yw'n cwmpasu staff sy'n gweithio'r tu allan i'r lleoliadau hynny mewn rolau datblygu a chefnogi.

### 1.2 Mathau o leoliadau gwaith chwarae a reoleiddir

Gofal plant y tu allan i oriau ysgol – mae hyn yn cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol amser llawn y plentyn ac mae'n cynnwys gofal a

ddarperir cyn amser ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant hyd at 12 oed.

Gwaith chwarae mynediad agored – gall hwn fod yn ddarpariaeth parhaol neu dros dro, wedi ei leoli mewn amrywiol leoliadau gyda neu heb adeilad a gall gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol. Fel arfer, bydd y math hwn o ddarpariaeth yn darparu ar gyfer ystod oedran eang o blant, 5 oed a throsodd gan amlaf. Y bwriad yw darparu cyfleoedd chwarae wedi eu staffio ar gyfer plant, gan amlaf yn absenoldeb eu rheini. Ni chyfyngir ar symudiad y plant, ar wahân i ble fo hynny'n ymwneud â materion diogelwch, ac ni rwystrir y plant rhag mynd a dod fel y mynnant.

Cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol – sefydlir y rhain yn benodol i ddarparu cyfleoedd i chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol. Gallant ddewis gweithredu fel gwaith chwarae mynediad agored neu ofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn dibynnu ar y model trosglwyddo a ddewisir.

Ble fo mathau eraill o ddarpariaeth yn bodoli sydd ddim yn dod o dan y gorchymyn eithriadau cyfredol, megis grwpiau ieuenctid iau neu glybiau ysgolion coedwig dros y gwyliau, sy'n agored am fwy na dwy awr, cânt eu rheoleiddio fel un o'r uchod a bydd y cymwysterau cyfatebol yn gymwys.

Gweler Atodiad 1 am restr o'r mathau o leoliadau sy'n cael eu cwmpasu gan gylch gorchwyl Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 1.3 Diffiniadau o rolau swydd sy'n cael eu cwmpasu gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir

### 1.3.1 Gweithiwr Chwarae

Mae gweithiwr chwarae'n hwyluso darpariaeth cyfleoedd chwarae fel aelod o dîm mewn rôl sydd ddim yn oruchwyliol (er y gall teitl eu swydd amrywio)

### 1.3.2 Uwch-weithiwr Chwarae / Gweithiwr Chwarae â Chyfrifoldeb

Mae uwch-weithiwr chwarae neu weithiwr chwarae â chyfrifoldeb yn hwyluso darpariaeth cyfleoedd chwarae ac, yn aml, gall gyflawni rôl heb oruchwyliaeth neu rôl oruchwyliol wrth arwain y tîm (er y gall teitl eu swydd amrywio)

### 1.3.3 Rheolwr Gwaith Chwarae

Mae rheolwr gwaith chwarae, fel arfer, yn hwyluso darpariaeth cyfleoedd chwarae a bydd ganddynt rôl oruchwyliol, gan weithio, weithiau, ar draws nifer o safleoedd. Gallant hefyd weithio fel Swyddog neu Gydlynydd Datblygu Chwarae (er y gall teitl eu swydd amrywio).

## 1.4 Statws y Rhestr Cymwysterau

C: A yw'r Rhestr Cymwysterau'n orfodol?

A: Bydd angen i ymarferwyr sydd wedi eu cynnwys yn y gymhareb staff cymwysedig feddu ar un o'r cymwysterau a nodir yn y Rhestr Cymwysterau er

mwyn gallu ymarfer yn y meysydd gwasanaeth y cyfeirir atynt yn 1.1 uchod.

**1.5 Cymwysterau sy'n ofynnol i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir**

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn disgrifio'r gofynion sylfaenol ar gyfer lleoliadau gofal plant a reoleiddir a'u nod yw sicrhau gwasanaethau diogel o safon. Fe'u cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac fe'u defnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) pan fyddant yn cofrestru ac yn archwilio lleoliadau. Mae'n bosibl y ceir cymwysterau eraill nad ydynt yn ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ond sy'n ofynnol gan bolisïau Llywodraeth Cymru.

**1.6 Cyn-gymwysterau a dderbynnir i ymarfer**

Mae'r rhain yn gymwysterau nad ydynt ar gael bellach ond sy'n dal i fodloni gofynion cymwysterau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu bolisïau Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol rheolaidd er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r ymarfer gorau diweddaraf.

**1.7 Meini prawf er mwyn i gymwysterau ymddangos ar y Rhestr Cymwysterau**

Er mwyn i gymhwyster gael ei dderbyn a'i osod ar y rhestr, bydd rhaid iddo fod wedi bodloni cyfres o feini prawf a elwir yn 'egwyddorion dylunio'. Mae'r egwyddorion dylunio'n mynnu bod cymwysterau:

- Yn seiliedig ar y safonau galwedigaethol cenedlaethol craidd ar gyfer rôl benodol, sydd wedi eu datblygu mewn partneriaeth â'r sector ac yr ystyrir sy'n addas at ddiben gan y sector
- Yn gallu cael eu dilysu'n allanol
- Yn cynnwys elfen o asesiad o berfformiad yn ogystal ag asesiad o wybodaeth a dealltwriaeth
- Yn hyrwyddo ennill gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a chymhwysedd ar gyfer rôl benodol
- Yn alinio â fframweithiau cymwysterau ar draws y DU a'r UE er mwyn cefnogi eu trosglwyddo ar draws ffiniau cenedlaethol (h.y. Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru, y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Yr Alban, a Fframwaith Cymwysterau Ewrop)
- Wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru

**1.8 Cymwysterau nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf dylunio**

Ceir nifer o gymwysterau sydd ddim yn ymddangos ar y rhestr. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn cyflawni'r egwyddorion dylunio ar gyfer cymwysterau llawn. Mae'r cymwysterau sydd ddim ar y rhestr fel a ganlyn:

1.8.1 Ar lefel 2 a 3, nid yw'r Diplomâu mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) (QCF), y Diploma Lefel 3 ar gyfer y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc (QCF), yr NVQs lefel 2 a 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, a'r NVQs mewn Gofal ac Addysg Plant yn cwmpasu'r safonau galwedigaethol cenedlaethol craidd ar gyfer gwaith chwarae ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried yn addas i'r diben ar gyfer gweithio mewn lleoliad gwaith chwarae.

1.8.2 Ar lefel 2, nid yw'r Gwobrau a'r Tystysgrifau QCF a gynigir gan CACHE (500/9066/5 a 500/9044/6), City and Guilds (500/8744/7 a 500/8659/5), Pearson Edexcel / EDI (500/9269/8 a 500/9270/4) ac SQA (500/4733/4 a 500/4731/0; 600/6932/6 a 600/6933/8) yn cwmpasu'r safonau galwedigaethol cenedlaethol craidd nac yn cynnwys asesiad o ymarfer ac, o'r herwydd, nid ydynt yn gymwysterau llawn

1.8.3 Ar lefel 3, nid yw'r Gwobrau a'r Tystysgrifau QCF a gynigir gan CACHE (501/0992/3 a 501/0993/5), City and Guilds (501/1484/0 a 501/1486/4), Pearson Edexcel / EDI (501/1311/2 a 501/1312/4) ac SQA (600/4292/8 a 600/4312/X) yn cwmpasu'r safonau galwedigaethol cenedlaethol craidd nac yn cynnwys asesiad o ymarfer ac, o'r herwydd, nid ydynt yn gymwysterau llawn

1.8.4 Nid yw Tystysgrif lefel 2 City and Guilds mewn Gwaith Chwarae (500/4301/8) yn gymhwyster llawn

1.8.5 Nid yw Tystysgrif lefel 3 City and Guilds mewn Gwaith Chwarae (500/1204/6) yn gymhwyster llawn

1.8.6 Ar lefel 4, nid yw'r Gwobrau a'r Tystysgrifau QCF mewn Gwaith Chwarae a gynigir gan CACHE (600/4052/X a 600/4042/7) a City and Guilds (600/4888/8 a 600/4889/X) yn gymwysterau llawn.

## 1.9 Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae

Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) wedi ei ddylunio i ymateb i anghenion cofrestru ar gyfer staff sydd ddim yn oruchwylwyr sy'n gweithio mewn ystod o amrywiol leoliadau:

**Staff cynlluniau chwarae dros y gwyliau** – Ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth sy'n cael ei redeg yn ystod gwyliau'r ysgol, ceir gofyniad cofrestru bod 50 y cant o'r staff sydd ddim yn oruchwylwyr yn meddu ar gymhwyster lefel 2 perthnasol. Mae L2APP yn addas fel cymhwyster unigol ar gyfer staff sydd ddim yn oruchwylwyr.

Yn y sefyllfa hon, y gofyniad cofrestru yw y bydd y goruchwylydd / person â chyfrifoldeb yn meddu ar gymhwyster lefel 3 perthnasol (gweler Adran 2) a gydag o leiaf ddwy flynedd o brofiad.

**Staff Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol / Gwaith Chwarae Mynediad Agored** – O'i ddal ynghyd â chymhwyster gofal plant lefel 2 neu 3 sydd ar Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd L2APP yn ateb gofynion cofrestru ar gyfer yr aelodau hynny o staff Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol / Gwaith Chwarae Mynediad Agored sy'n gweithio gyda phlant hyd at 12 oed mewn rôl sydd ddim yn oruchwyliol.

**Staff gofal plant** – Ar gyfer staff sy'n gweithio trwy'r flwyddyn mewn lleoliadau gofal plant, ceir gofyniad cofrestru y dylai 50% o staff sydd ddim yn oruchwylwyr mewn gofal dydd sesiynol, ac 80% mewn gofal dydd llawn, feddu ar gymhwyster lefel 2 perthnasol ar gyfer gweithio

gyda phlant dan wyth sydd wedi ei gynnwys ar Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru: [https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau](https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau)

Bydd L2APP, o'i ddal ynghyd â chymhwyster gofal plant lefel 2 neu 3 o restr Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cyflawni gofynion cofrestru ar gyfer pobl sydd hefyd yn gweithio gyda phlant hyd at 12 oed mewn rôl sydd ddim yn oruchwyliol.

**Staff addysg / ysgol** – Bydd L2APP, o'i ddal ynghyd â chymhwyster addysgu neu gymhwyster addysg perthnasol arall ar Lefel 2 neu'n uwch (yn cynnwys Ysgol Fforest neu Gynorthwyydd Addysgu), yn ateb gofynion cofrestru ar gyfer yr aelodau hynny o staff Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol / Gwaith Chwarae Mynediad Agored sy'n gweithio gyda phlant hyd at 12 oed mewn rôl sydd ddim yn oruchwyliol.

**Staff gwaith ieuenctid** – Ar gyfer staff sy'n gweithio trwy gydol y flwyddyn mewn lleoliadau gwaith ieuenctid gyda phlant 8-11 oed mewn lleoliad gwaith ieuenctid trosiannol neu glwb ieuenctid iau, bydd L2APP yn ateb gofynion cofrestru bod 50 y cant o'r staff sydd ddim yn oruchwylwyr yn meddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 2 o'i ddal ynghyd â chymhwyster gwaith ieuenctid perthnasol.

## 1.10 Y Wobr mewn Trosi i Waith Chwarae

Ar lefel 3, mae'r Wobr mewn Trosi i Waith Chwarae a gynigir gan NCFE, City and Guilds ac Agored Cymru, ynghyd â'r gofyniad mynediad i feddu ar gymhwyster lefel 3 mewn addysg (yn cynnwys gwaith ieuenctid), gofal plant neu ofalu am blant, yn cwmpasu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar gyfer gwaith chwarae.

## 1.11 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau

Mae'r Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau wedi ei ddylunio i gyflawni gofynion cofrestru ar gyfer y person cofrestredig / person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae dros y gwyliau. Os nad yw'r person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae dros y gwyliau yn meddu ar gymhwyster diploma gwaith chwarae ar lefel 3, fel sy'n ofynnol, gallant feddu ar gymhwyster addysgu, gwaith ieuenctid neu gymwysterau perthnasol eraill ar lefel 3 neu uwch, ochr-yn-ochr â'r Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau. Hefyd, dylai fod gan ddeiliad y swydd y sgiliau rheoli a'r profiad perthnasol i reoli cynllun chwarae dros y gwyliau'n effeithiol.

## 1.12 Cyfwerthedd a dysg blaenorol

Mae'n bosibl y ceir rhai amgylchiadau ble y gellid ystyried bod cymhwyster yn cyfateb i un o'r rhai a nodir ar y rhestr. Mewn achosion o'r fath, dylid trafod hyn gydag AGC yn y lle cyntaf. Gall AGC gysylltu ag ysgrifenyddiaeth PETC Cymru d/o Chwarae Cymru am gyngor, os oes angen. Bydd modd hefyd i gyrff dyfarnu gydnabod dysg blaenorol a, ble fo'n briodol, dderbyn hyn tuag at gyflawni cymhwyster gwahanol. Dylid

cysylltu'n uniongyrchol â'r corff dyfarnu am wybodaeth bellach.

**1.13 Cymwysterau a enillwyd y tu allan i Gymru**

Dim ond y cymwysterau gwaith chwarae hynny sydd ar gael yng Nghymru a nodir ar y Rhestr Cymwysterau, er bod llawer o'r rhain ar gael hefyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, oherwydd bod cymwysterau a gydnabyddir yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol, mae Cymwysterau Galwedigaethol Yr Alban (SVQs) ar y lefel priodol yn dderbyniol hefyd gan eu bod yn cyflawni'r egwyddorion dylunio a restrir uchod.

**1.14 Y broses sefydlu ar gyfer ymarferwyr gwaith chwarae a gofal plant y tu allan i'r ysgol**

Rydym yn argymell y dylai pob ymarferydd gwaith chwarae dderbyn hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant yn ystod wythnos gyntaf eu cyflogaeth.

**1.15 Datblygiad proffesiynol parhaus**

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn broses a ddefnyddir gan unigolion i wella eu perfformiad ymarferol trwy ymgymryd â dysg mewn ystod eang o weithgareddau sy'n cynnal, datblygu, a chyfoethogi eu sgiliau a'u gwybodaeth. Gellir cyflawni Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn nifer o ffyrdd.

Gall rhaglen gynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd, seminarau a chynadleddau allweddol.
- Astudio ar gyfer cyrsiau byrion neu gymwysterau mwy o faint.
- Darllen ac astudio preifat.
- Arsylwi, mentora ac adborth ar arferion gweithio.

**1.16 Cymwysterau seiliedig ar waith ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus**

Yn ogystal â'r cymwysterau gwaith chwarae llawn, sy'n cynnig cyfleoedd i gefnogi dilyniant gyrfa, ceir nifer o unedau dewisol ar lefelau 2 a 3 (ac ar lefelau 4 a 5, ceir nifer o unedau DPP annibynnol) sy'n addas ar gyfer y rheini sy'n gweithio mewn amrywiol leoliadau ac y gellir ymgymryd â hwy fel datblygiad proffesiynol parhaus.

**1.17 Cymwysterau addysg uwch ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus**

Mae gwerth i astudio ar lefel addysg uwch all sicrhau buddiannau i wybodaeth ac arfer gweithiwr chwarae. Am gyngor ar gyfleoedd addysg uwch

addas cysyllter ag ysgrifenyddiaeth PETC Cymru d/o Chwarae Cymru.

### 1.18 Trosglwyddo ac asesu cymwysterau

Mae ansawdd ac enw da cymwysterau'n dibynnu ar wybodaeth, sgiliau a chymhwysedd pynciol a galwedigaethol yr hyfforddwyr a'r aseswyr sy'n eu trosglwyddo. Gan weithio gyda chyflogwyr, hyfforddwyr a chyrff dyfarnu, mae PETC Cymru wedi datblygu datganiad o gymhwysedd galwedigaethol sy'n darparu arweiniad ar y meini prawf y bydd disgwyl i'r bobl hynny sy'n gysylltiedig â throsglwyddo ac asesu cymwysterau a hyfforddiant eu cyflawni. Mae hyn wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

### 1.19 Yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai'r holl gymwysterau a restrir yn y ddogfen hon fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, dylid ceisio cyngor gan y corff dyfarnu priodol. Neu, gellir derbyn cyngor ar drosglwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg gan Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs neu gan Chwarae Cymru.

### 1.20 Crynodeb o Newidiadau ers cyhoeddiad Hydref 2023

- Diweddaru URLs
- Ychwanegu datganiad cymhwysedd galwedigaethol PETC Cymru yn Atodiad 3

## Adran 2: Cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn gweithio ym maes darpariaeth gwaith chwarae, a darpariaeth gofal plant hyd at 12 oed

### Staff heb rôl oruchwyliol (Gweithiwr / Ymarferydd Chwarae)

**2.1 Ar gyfer Cynlluniau Chwarae dros y Gwyliau** – mae trefniadau penodol yn berthnasol ble mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae yn ddigonol ar ei ben ei hun ar gyfer staff sydd ddim yn oruchwylwyr mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau (gweler adran 1.9).

**2.2 Ar gyfer lleoliadau Gofal Dydd Llawn** - Yn dilyn ehangu'r rheoliadau i gynnwys darpariaeth chwarae a gofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed, bydd angen i ymarferwyr gofal plant sydd â chymwysterau gofal plant Lefel 2 (e.e. Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant – CCPLD) gyflenwi eu cymhwyster gyda chymhwyster lefel 2 addas mewn gwaith chwarae.

**2.3 Ar gyfer lleoliadau Gwaith Chwarae (Sydd wedi eu cofrestru fel Gwaith Chwarae Mynediad Agored neu Ofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol)** – Bydd ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig gyda phlant hyd at 12 oed angen meddu ar gymhwyster gwaith chwarae, fel y rhestrir isod. Ar hyn o bryd, dylai 50% o staff sydd ddim yn oruchwylwyr feddu ar gymhwyster llawn er mwyn caniatáu i staff newydd hyfforddi tra yn y gwaith.

**2.4 Ar gyfer lleoliadau eraill a reoleiddir** – Ar gyfer ymarferwyr sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed am fwy na dwy awr y dydd mewn nifer o leoliadau sy'n cynnwys – grwpiau ieuenctid iau, gwaith ieuenctid trosiannol a chlybiau ysgolion coedwig dros y gwyliau ac sydd wedi eu cofrestru gydag AGC, mae'r cymwysterau a restrir isod yn gymwys ar gyfer staff sydd ddim yn oruchwylwyr.

| **Y gyfran ofynnol o'r gweithlu yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Ebrill 2016)**: 'Mae o leiaf 50% o'r staff nad oes ganddynt rôl oruchwyliol yn meddu ar gymhwyster lefel 2 sy'n briodol i'r swydd.' | | |
|---|---|---|
| **Cymwysterau gofynnol ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | **Cymwysterau blaenorol a dderbynnir** | **Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus** |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae* (ar gyfer staff cynlluniau chwarae dros y gwyliau a'r rheini sydd â chymwysterau Lefel 2 perthnasol) | NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae (NVQ) (QCF) |

| | | |
|---|---|---|
| Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith | Dyfarniad mewn Gwaith Chwarae ar gyfer Gweithwyr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | | Unedau dewisol o'r gyfres Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae (NVQ) (QCF) |

*Gweler Adran 1.9 am fwy o wybodaeth

## Person â chyfrifoldeb / person cofrestredig (uwch-weithiwr chwarae / uwch-ymarferydd)

**2.5 Ar gyfer Cynlluniau Chwarae dros y Gwyliau** – Mae trefniadau penodol yn berthnasol ble mae'r Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau yn ddigonol o'i ddal ochr-yn-ochr â chymhwyster lefel 3 perthnasol ar gyfer personau sy'n gyfrifol am gynlluniau chwarae dros y gwyliau (gweler adran 1.11)

**2.6 Ar gyfer Lleoliadau Gofal Dydd Llawn** – Yn dilyn ehangu'r rheoliadau i gynnwys darpariaeth chwarae a gofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed, bydd angen i ymarferwyr gofal plant sydd â chymwysterau gofal plant Lefel 3 (e.e. Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant - CCPLD) gyflenwi eu cymhwyster gyda chymhwyster Lefel 3 addas mewn gwaith chwarae.

**2.7 Ar gyfer lleoliadau Gwaith Chwarae (Sydd wedi eu cofrestru fel Gwaith Chwarae Mynediad Agored neu Ofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol)** – Bydd ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig gyda phlant hyd at 12 oed angen meddu ar gymhwyster gwaith chwarae o'r rhestr isod.

**2.8 Ar gyfer lleoliadau eraill a reoleiddir** – Os ydych yn gofalu am blant hyd at 12 oed am fwy na dwy awr y dydd mewn nifer o leoliadau sy'n cynnwys – grwpiau ieuenctid iau, gwaith ieuenctid trosiannol a chlybiau ysgolion coedwig dros y gwyliau ac wedi eich cofrestru gydag AGC, mae'r Diploma mewn Gwaith Chwarae a restrir isod yn gymwys ar gyfer staff goruchwyliol. Nid yw hyn yn gymwys i leoliadau gwaith ieuenctid sydd OND yn gweithio gyda phlant 11 oed a throsodd.

| **Y gyfran ofynnol o'r gweithlu yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Ebrill 2016)**: 'Mae'r person â chyfrifoldeb yn meddu ar o leiaf gymhwyster lefel 3 sy'n briodol i'r swydd'. | | |
|---|---|---|
| **Cymwysterau gofynnol ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | **Cymwysterau blaenorol a dderbynnir** | **Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus** |

| | | |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau * | NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae (NVQ) (QCF) |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | Unedau dewisol ychwanegol o'r Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae (NVQ) |
| Gwobr Lefel 3 mewn trosi i waith chwarae | Gwobr Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | Gwobr Lefel 4 mewn Sicrhau Cyllid Ychwanegol ar gyfer y Sefydliad |
| | | Gwobr Lefel 4 mewn Cydweithio â Sefydliadau, Asiantaethau a Gweithwyr Proffesiynol eraill mewn Cyd-destun Gwaith Chwarae |
| | | Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) (QCF) |

*Gweler Adran 1.11 am fwy o wybodaeth

| **Rheolwr Gwaith Chwarae (heb ei gynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol)** | | |
|---|---|---|
| **Nid yw'n ofynnol gan y SGC i staff rheoli feddu ar y cymwysterau hyn.** Fodd bynnag, er mwyn cefnogi dilyniant proffesiynol a gwella ansawdd, mae PETC Cymru yn argymell y canlynol: | | |
| **Cymwysterau presennol a argymhellir** | **Cymwysterau blaenorol sy'n gyfatebol** | **Awgrymiadau am gymwysterau seiliedig ar waith ar gyfer dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus** |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) | NVQ Lefel 4 mewn Gwaith Chwarae | Gwobr Lefel 4 mewn Cydweithio â Sefydliadau, Asiantaethau a Gweithwyr Proffesiynol Eraill mewn Cyd-destun Gwaith Chwarae (QCF) |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | | Gwobr Lefel 4 mewn Cefnogi Eraill i Gael Mynediad i'r Adnoddau y maent eu hangen i ddarparu amgylcheddau chwarae |
| | | Gwobr Lefel 4 mewn Darparu Gwybodaeth er mwyn Hysbysu Llunio Penderfyniadau |
| | | Gwobr Lefel 4 mewn Sicrhau Cyllid Ychwanegol ar gyfer y Sefydliad |
| | | Gwobr Lefel 5 mewn Darparu Arweinyddiaeth yn eich maes cyfrifoldeb personol |
| | | Gwobr Lefel 5 mewn Rheoli Cyllid yn eich Maes Cyfrifoldeb Personol |
| | | Gwobr Lefel 5 mewn Datblygu a Gweithredu Gweithdrefnau i Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc |
| | | Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) (QCF) |

**Atodiad 1**

Lleoliadau Gofal Plant sy'n dod o dan ofalaeth Gofal Cymdeithasol Cymru:

- Gofal dydd llawn – meithrinfeydd dydd
- Gofal Sesiynol – cylchoedd chwarae a Chylchoedd Meithrin
- Crèches
- Gwarchod Plant – gofal plant yn y cartref

**Atodiad 2 – Cyrff dyfarnu sydd, ar hyn o bryd, yn cynnig cymwysterau gwaith chwarae sydd wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru** a'u **cefnogi gan PETC Cymru**

| **Teitl y cymhwyster** | **Lefel** | **Corff Dyfarnu** |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 2 | Agored Cymru |
| Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith | 2 | Agored Cymru |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 2 | NCFE |
| Diploma Lefel 2 Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) – sy'n cynnwys gwobr, tystysgrif a diploma | 2 | SQA |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 2 | City and Guilds |
| Dyfarniad Rheoli Cynllun Chwarae dros y Gwyliau (MAHPS) | 3 | Agored Cymru |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith | 3 | Agored Cymru |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 3 | NCFE |
| Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) – sy'n cynnwys gwobr, tystysgrif a diploma | 3 | SQA |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 3 | City and Guilds |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae | 3 | NCFE |

| | | |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae | 3 | City and Guilds |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae | 3 | Agored Cymru |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) | 5 | NCFE |
| Diploma Lefel 5 mewn gwaith chwarae | 5 | NCFE |
| Diploma Lefel 5 mewn gwaith chwarae | 5 | City and Guilds |

**Atodiad 3 – Datganiad Cymhwysedd Galwedigaethol**

Mae PETC Cymru am sicrhau y gall pawb sy'n dysgu ac asesu gwaith chwarae yng Nghymru arddangos cymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod y bobl hynny sy'n dysgu gwaith chwarae yn meddu hefyd ar brofiad perthnasol a chyfredol o weithio wyneb yn wyneb gyda phlant mewn cyd-destun gwaith chwarae. Mae PETC Cymru'n cydnabod bod gwaith chwarae yn broffesiwn unigryw gyda'i gyfres ei hun o egwyddorion, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a safbwyntiau damcaniaethol. Mae angen i diwtoriaid ac aseswyr ddeall yn ddiamwys waith chwarae yn ymarferol fel modd unigryw, gwahanol o weithio sy'n sylfaenol wahanol i broffesiynau perthynol mewn gofal ac addysg.

Bwriedir i'r Datganiad Cymhwysedd Galwedigaethol hwn gefnogi a hysbysu:

- Cyrff dyfarnu
- Darparwyr hyfforddiant
- Canolfannau asesu
- Tiwtoriaid ac aseswyr gwaith chwarae cyfredol a phosibl
- Staff Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Allanol (IQA/EQA)

Yn ogystal, bydd PETC Cymru yn defnyddio'r Datganiad Cymhwysedd Galwedigaethol hwn i asesu a chraffu ar geisiadau gan Gyrff Dyfarnu:

- fel rhan o'i Swyddogaeth Weithredol i gymeradwyo cymwysterau i ymddangos yn y *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y sector gwaith chwarae yng Nghymru*
- fel rhan o amodau Cymwysterau Cymru bod Cyrff Dyfarnu'n gofyn am eirda oddi wrth PETC Cymru pan fyddant yn ymgeisio am ddynodiad neu ail-ddynodiad.

**Diffiniad o gymhwysedd galwedigaethol**

Er mwyn cael eu hystyried yn alwedigaethol gymwys, dylai unigolion arddangos:

- eu bod wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc fel gweithiwr chwarae ar lefel y cymhwyster / yr hyfforddiant, neu'n uwch na hynny, mewn lleoliadau sy'n cydweddu gyda'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ac ethos gwaith chwarae
- profiad, gwybodaeth a'r sgiliau perthnasol sy'n ofynnol i lunio barn gywir am gymhwysedd pobl eraill. Yn cynnwys:
    - Lefel profiad gwaith chwarae cyfredol
    - Gwybodaeth ymarferol am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a theori gwaith chwarae
    - Dealltwriaeth o rôl benodol y gweithiwr chwarae (o'i gyferbynnu gydag addysgwr blynyddoedd cynnar neu weithiwr ieuenctid) a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon
- dealltwriaeth gynhwysfawr o, ac ymrwymiad i, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol

- eu bod wedi gweithio fel, neu yn hyfforddi ar hyn o bryd fel asesydd gwaith chwarae a / neu hyfforddwr gwaith chwarae
- eu bod wedi ennill cymhwyster hyfforddi a / neu asesu cydnabyddedig
- profiad o ddysgu a / neu hwyluso hyfforddiant a gweithdai
- datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) rheolaidd sy'n berthnasol i waith chwarae (cynadleddau, gweithdai, trosglwyddo a mynychu hyfforddiant). Dylai DPP hefyd gynnwys ymarfer gwaith chwarae wyneb yn wyneb gyda phlant (o leiaf 30 awr y flwyddyn)
- dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, a darpariaeth hamdden a chwaraeon.

**Dymunol**
- Wedi ennill cymhwyster Agored Cymru – Gwobr Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT)
- Wedi cofrestru i ddysgu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg
- Wedi ennill, neu'n gweithio tuag at, gymhwyster gwaith chwarae cydnabyddedig ar un o fframweithiau cymwysterau cyfredol neu hanesyddol y DU.

Gellir tystio i hyn trwy nifer o ddulliau, yn cynnwys CVs staff, tystysgrifau cymwysterau, cofnodion DPP, cyfweliadau ac adroddiadau myfyriol.